**Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cyllid Datblygu Rhanbarthol ar ôl gadael yr UE**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Gyllid Datblygu Rhanbarthol ar ôl gadael yr UE, ac rydym yn rhannu pryderon y Pwyllgor. Credwn fod dull Llywodraeth y DU yn costio swyddi ac yn atal twf yng Nghymru, ac mae'n dresmasiad bwriadol ac annerbyniol ar faes polisi datganoledig, gan ddefnyddio pwerau cymorth ariannol y Ddeddf Marchnad Fewnol.

Dylai cyllid ar gyfer swyddogaethau datganoledig ddod i Lywodraeth Cymru er mwyn i Weinidogion Cymru ei ddyrannu yn unol â'i blaenoriaethau, ei chyfeiriad strategol a'i phrosesau cyllidebol, a dylai fod yn destun craffu gan y Senedd. Bydd hyn yn helpu i osgoi dyblygu gwasanaethau, atebolrwydd aneglur, gwerth gwael am arian, bylchau yng nghyllid sectorau a thirwedd ariannu anghydlynol lle mae symiau bach o arian yn cael eu gwasgaru'n denau ar brosiectau lleol byrdymor.

Rydym yn falch bod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi cydnabod llawer o'r pwyntiau rydym wedi bod yn eu gwneud wrth Lywodraeth y DU, ac eraill, ynghylch ei dull o ymdrin â chyllid ar ôl gadael yr UE ers sawl blwyddyn.

Mae pwyllgorau eraill, gan gynnwys Pwyllgor Ffyniant Bro a Thai Senedd y DU, hefyd yn cytuno â'n barn bod dull Llywodraeth y DU o ymdrin â'r agenda "ffyniant bro" wedi bod yn anhrefnus, wedi tanseilio datganoli, ac na fyddai'n arwain at y newid trawsnewidiol ystyrlon y mae angen i Gymru a gweddill y DU ei weld.

Mae gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin lawer llai o arian ar gael na rhaglenni'r UE y mae'n honni ei bod yn eu disodli. Y diffyg i Gymru yw £1.1 biliwn o'i gymharu â chronfeydd strwythurol a gwledig yr UE.

Mae llawer o'r problemau a welwn yn y ffordd mae Llywodraeth y DU yn rheoli'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ganlyniad uniongyrchol i orfodi'r Gronfa hon ar Gymru heb bartneriaeth ystyrlon â Llywodraeth Cymru a heb fawr o ystyriaeth i anghenion penodol rhanddeiliaid yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn wir am y ffordd maent yn rheoli'r Gronfa Ffyniant Bro.

Hefyd mae oedi gan Lywodraeth y DU wedi arwain at lu o broblemau ar gyfer y cronfeydd hyn. Er enghraifft, er i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gael ei lansio ym mis Ebrill 2022, ni chafodd y cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ei ryddhau i awdurdodau lleol tan fis Ionawr 2023. Ar ben hynny, bydd angen i weithgareddau prosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ddod i ben erbyn mis Rhagfyr 2024, fel bod yr holl wariant wedi'i wneud erbyn 31 Mawrth 2025. Felly, er ei fod yn gynllun tair blynedd, dim ond tua 18 mis o gyflawni prosiect y bydd y Gronfa hon yn ei gefnogi.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi trefniadau ar gyfer trydydd cylch a chylch terfynol y Gronfa Ffyniant Bro, er gwaethaf yr angen i wario'r arian mewn amserlen fer iawn. Nid yw pum sir yng Nghymru (Sir y Fflint, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg) wedi cael unrhyw gyllid hyd yma o ddau gylch cyntaf y Gronfa Ffyniant Bro.

Mae gweithredu anhrefnus ac oedi gan Lywodraeth y DU wedi rhoi pwysau eithafol ar awdurdodau lleol, gan eu gorfodi i gefnogi prosiectau byrdymor, is-optimaidd a fydd yn cael effaith economaidd gyfyngedig. Maent hefyd yn ymdrin â sectorau eraill sy'n ceisio cyllid newydd yn lle cyllid yr UE – o gronfa lai o lawer a llai hygyrch.

Canlyniad arall i weithredoedd Llywodraeth y DU yw bod sefydliadau ac unigolion bellach yn gweld y dirwedd gyllido yn ddryslyd ac yn ddarniog, gyda rhai cyfleoedd ar gael mewn rhai ardaloedd yn unig.

Rydym yn deall bod y problemau gyda'r cronfeydd hyn yn creu sefyllfa hynod heriol i lawer o sefydliadau yng Nghymru. Mae llawer o sectorau yn economi Cymru bellach yn dweud bod staff yn cael eu diswyddo a bod rhaglenni hanfodol yn cau mewn meysydd fel ymchwil ac arloesi, sgiliau a chymorth i bobl sy'n agored i niwed.

Byddai'r senarios hyn wedi cael eu hosgoi pe bai Llywodraeth y DU wedi parchu'r gwaith a wnaed yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, ac wedi gadael inni reoli'r holl gyllid sydd wedi disodli cyllid yr UE drwy ein *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol*, a ddatblygwyd gyda llywodraethau lleol, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a'r OECD – ac a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Rydym hefyd yn derbyn pryderon y Pwyllgor am Lluosi, rhaglen rifedd y DU ar gyfer oedolion.

Mae rhifedd oedolion yn faes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru. Mae Lluosi yn gweithredu mewn cystadleuaeth uniongyrchol â darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, sydd eisoes ar gael yng Nghymru. Mae hefyd yn peri risg o ddyblygu gwaith ein rhaglen Sgiliau Hanfodol Cymru sydd wedi hen ennill ei phlwyf.

Mae hyn yn golygu bod dysgwyr yng Nghymru yn wynebu amrediad dryslyd a chymhleth o opsiynau, ac mae awdurdodau lleol yn adrodd am y diffyg hyblygrwydd wrth ddarparu Lluosi ac anawsterau wrth wario eu dyraniadau cyllid.

Ar ben hynny, er bod Llywodraeth y DU yn rhannu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin o'r brig er mwyn cefnogi ei chynllun Lluosi ei hun ledled y DU, mae'n atal Lywodraeth Cymru rhag ariannu rhaglenni blaenorol ledled Cymru a oedd yn cael eu hariannu gan yr UE ym meysydd busnes, arloesi a sgiliau.

Rydym yn derbyn pob un o argymhellion y Pwyllgor ar gyfer Llywodraeth Cymru. O ran argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas â Llywodraeth y DU, rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei gefnogaeth barhaus ac am godi'r materion hyn.

Byddai Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i weld ymateb Llywodraeth y DU i'r argymhellion, yn enwedig o ystyried y pwysau ar awdurdodau lleol, ar sectorau eraill o'r economi, ac ar arian cyhoeddus.

Yn unol â'n setliad datganoli, rhaid hefyd ddychwelyd unrhyw gronfeydd datblygu rhanbarthol yn dilyn gadael yr UE i Lywodraeth Cymru, fel y gallwn gyflawni, gan weithio gyda'n partneriaid, ganlyniadau gwell a gwerth am arian gwell, a chreu Cymru gryfach, decach a gwyrddach.

**Argymhelliad 1. Cyn cyhoeddi unrhyw gylch ariannu datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE yn y dyfodol, dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru geisio cytuno ar safbwynt cyffredin o ran amseriad ei gyflwyno a chwantwm y cyllid.**

**Ymateb:** Mae'r argymhelliad hwn wedi'i anelu at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ei rhan yn yr argymhelliad.

Mae Datblygu Economaidd Rhanbarthol yn faes polisi datganoledig.

Fel y mae, mae dull Llywodraeth y DU ynglŷn â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi tynnu pwerau datganoledig oddi wrth Lywodraeth Cymru ac wedi gadael diffyg o £1.1 biliwn ar gyfer Cymru o'i gymharu â chronfeydd strwythurol a gwledig yr UE. Mae hyn yn dangos methiant clir ar ran Llywodraeth y DU i gyflawni'r addewid yn ei Maniffesto i ddarparu cyllid llawn yn lle cronfeydd yr UE ac mae'n creu heriau enfawr i economi Cymru. Byddwn yn parhau i bwyso i Gymru dderbyn cyllid llawn yn lle cyllid yr UE.

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru hefyd yn glir y dylai cyllid ar gyfer swyddogaethau datganoledig ddod i Lywodraeth Cymru, er mwyn i Weinidogion ei ddyrannu yn unol â'i blaenoriaethau, ei chyfeiriad strategol, ei hamserlenni a'i phrosesau cyllidebol, a dylai fod yn destun craffu gan y Senedd.

**Goblygiadau ariannol:** nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn. Os bydd Llywodraeth y DU yn parhau â model presennol y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer y DU, mae'n debygol y bydd sefydliadau/cynlluniau a oedd gynt yn elwa o dan gronfeydd strwythurol yr UE yn parhau i wynebu anawsterau ac mae'n debygol y byddant yn gofyn i Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol.

**Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod y cylch nesaf o gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ystyried maint poblogaeth ardaloedd difreintiedig.**

**Ymateb:** Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth y DU ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo i ddarparu a dylunio cylch nesaf y Gronfa Ffyniant Gyffredin.**

**Ymateb:** Er bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Mae tirwedd wleidyddol a thirwedd gyllid y DU yn y dyfodol yn aneglur. Fodd bynnag, safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod hwn yn fater datganoledig ac felly dylai unrhyw gyllid datblygu rhanbarthol yn dilyn gadael yr UE ddod i Lywodraeth Cymru er mwyn i Weinidogion Cymru ei ddyrannu yn unol â'i blaenoriaethau, ei chyfeiriad strategol, ei phrosesau cyllidebol, a dylai fod yn destun craffu gan y Senedd.

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gynnal adolygiad i weld a ddylai gwahanol elfennau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gael eu darparu ar lefel leol, ar lefel ranbarthol neu ar lefel Cymru gyfan, yn seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio orau.**

**Ymateb:** Mae'r argymhelliad hwn wedi'i anelu at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ei rhan yn yr argymhelliad.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael chwarae unrhyw ran yn y gwaith o ddylunio neu gyflwyno'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac rydym yn annog Llywodraeth y DU i ailystyried ei dull gweithredu a dychwelyd y cyllid hwn i Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian a chanlyniadau economaidd gwell.

Yn amlwg, mae dyluniad, dyraniadau ac amserlenni presennol Llywodraeth y DU ar gyfer cyflawni yn cael effaith andwyol ar ddulliau rhanbarthol a chenedlaethol o ddatblygu economaidd yng Nghymru.

Er enghraifft, mae awdurdodau lleol unigol wedi agor cylchoedd ariannu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar adegau gwahanol a gyda threfniadau, meini prawf asesu ac amserlenni penderfynu gwahanol. Mae'r dull hwn yn gadael ychydig iawn o gyfle ar gyfer prosiectau effeithiol ledled Cymru, yn rhanbarthol neu'n drawsffiniol oherwydd eu maint, eu cymhlethdod, yr amserlenni byr a'r pwysau i fodloni gofynion lleol.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi atal Llywodraeth Cymru rhag cael mynediad i'r Gronfa i gefnogi rhaglenni Cymru gyfan fel Busnes Cymru, Prentisiaethau a'n cyfres SMART o gymorth arloesi ar gyfer cydweithredu rhwng busnesau a rhwng busnesau a'r byd academaidd.

Ar y llaw arall, mae ein *Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol i Gymru*, a ddatblygwyd gyda'n partneriaid yng Nghymru, yn hyblyg fel y gallwn fod yn greadigol ac yn uchelgeisiol o ran ein nodau, gan nodi y byddai hyn yn cael ei osod yng nghyd-destun proses gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllidebau. Mae ein Fframwaith yn rhan sylfaenol o ddull gweithredu sy'n seiliedig ar le yn ein *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*, gyda phenderfyniadau i'w gwneud ar lefel briodol o lywodraethu ac mor agos at lefel y dinesydd â phosibl. Byddai'n caniatáu mynd ati mewn modd mwy strategol i ystyried ble y gall buddsoddiadau addasu ac ymateb orau i gyfleoedd, anghenion a heriau ar lefel leol, lefel ranbarthol, lefel genedlaethol, ac ar lefel y DU ac yn rhyngwladol, gan gefnogi cymysgedd o ddulliau sydd i gyd yn gallu helpu i greu gweledigaeth gyffredin.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol am adolygu model presennol y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth y DU werthuso'r dull rhanbarthol o ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru. Dylai hyn ystyried sut y mae dull awdurdodau lleol o wneud penderfyniadau unigol o fewn fframwaith rhanbarthol yn diwallu anghenion sefydliadau sy'n ceisio cyllid, a hefyd a yw'r dull hwn yn rhoi mwy o faich o ran monitro a gwerthuso nag y mae awdurdodau lleol unigol yn Lloegr yn ei wynebu.**

**Ymateb:** Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth y DU, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, sefydlu corff Cymru gyfan i gefnogi gwaith cydgysylltu rhanbarthol wrth ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.**

**Ymateb:** Er bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Mae gan Gymru eisoes strwythurau a phartneriaethau llywodraethu priodol ar waith i helpu i sicrhau buddsoddiadau'n rhanbarthol, gan gynnwys y Cyd-bwyllgorau Corfforedig statudol a'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol sy'n weithredu ym mhob rhanbarth; mae'r ddau grŵp hyn yn derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru i helpu i gyflawni eu hamcanion.

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth y DU flaenoriaethu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau nad yw'r ymyriadau sy'n cael eu hariannu a'u darparu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dyblygu'r rhai sydd eisoes ar waith. Dylai Llywodraeth y DU gynnwys Llywodraeth Cymru yn y gwaith hwn.**

**Ymateb:** Er bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Er nad ydym wedi cael chwarae unrhyw rôl yn y Gronfa hon, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i'n partneriaid yng Nghymru. Mae Gweinidogion a swyddogion Cymru yn aml yn cwrdd â llywodraethau lleol a sectorau eraill o'r economi i helpu i sicrhau ein bod yn osgoi dyblygu darpariaeth cyn belled ag y bo modd, yn enwedig o ran sgiliau a chymorth busnes, wedi'u hachosi gan Lywodraeth y DU yn darnio'r trefniadau cyllido ar gyfer sefydliadau ac unigolion yng Nghymru.

Rydym hefyd yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd y Fforwm Strategol ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, o dan gadeiryddiaeth Huw Irranca-Davies AS, i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd â phartneriaid yng Nghymru. Mae cofnodion a phapurau'r fforwm hwn yn cael eu cyhoeddi yma.

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 8 Dylai Llywodraeth y DU gytuno ar gyfnod cyllido hwy ar gyfer cylchoedd cyllido'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar ôl 2025. Dylai'r cytundeb hwn gael ei wneud gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru, a dylai hyn gynnwys digon o amser i gyllidwyr, a'r rhai sy'n ymwneud â phrosiectau, gynllunio a chyflwyno rhaglenni a phrosiectau sy'n sicrhau'r buddion mwyaf**

**Ymateb:** Er bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Byddai rhaglenni cyllido newydd yr UE, y mae'r Gronfa Ffyniant gyffredin yn honni ei bod wedi eu disodli, wedi dechrau ym mis Ionawr 2021, a byddent wedi gorgyffwrdd

â rhaglen cyllid yr UE 2014–2020 o tua dwy flynedd i ddarparu parhad busnes i sefydliadau.

Ar y llaw arall, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phrosbectws ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin ym mis Ebrill 2022, ac ni wnaeth gyhoeddi ei dyraniadau cyllido blynyddol ar gyfer awdurdodau lleol tan fis Ionawr 2023. Bydd angen i weithgareddau prosiect ddod i ben erbyn diwedd mis Rhagfyr 2024 er mwyn i gyllid gael ei wario erbyn mis Mawrth 2025. Mae'r oedi hyn gan Lywodraeth y DU a'r amserlenni byr ar gyfer gwario'r cyllid, ynghyd â chronfa gyllid lawer llai, yn gorfodi awdurdodau lleol i gefnogi prosiectau byrdymor, is-optimaidd a fydd yn cael effaith economaidd gyfyngedig.

Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i alluogi cylch cyllido amlflwyddyn. Mae hyn sy'n rhoi rhagor o sicrwydd i sefydliadau er mwyn iddynt gynllunio i gyflawni prosiectau tymor hir sy'n gallu cyflawni canlyniadau gwell a gwireddu'r effeithiau gorau posibl.

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod ei gwerthusiad o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn canolbwyntio'n ddigonol ar brofiad sefydliadau a leolir yng Nghymru, a'i bod yn cynnal ac yn cyhoeddi ymarfer o’r gwersi a ddysgwyd fel rhan o'i strategaeth werthuso.**

**Ymateb:** Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 10. O ystyried y pryderon a godwyd gan rai sefydliadau bod awdurdodau lleol mewn rhai rhannau o Gymru yn blaenoriaethu eu prosiectau eu hunain ar gyfer cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, dylai Llywodraeth y DU edrych ymhellach i hyn a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod pob sefydliad yn cael cyfle i elwa ar y cyllid hwn.**

**Ymateb:** Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth y DU adolygu ei dull o lunio canllawiau ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin i sicrhau'r eglurder mwyaf posibl i awdurdodau lleol, gan ystyried y bydd gan awdurdodau lleol Cymru lai o brofiad o weithio'n uniongyrchol â Llywodraeth y DU nag awdurdodau Lloegr.**

**Ymateb:** Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ystyried ailedrych ar ofynion ynghylch ychwanegedd ar gyfer unrhyw ffrydiau cyllido datblygu economaidd yn y dyfodol.**

**Ymateb:** Mae'r argymhelliad hwn wedi'i anelu at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ei rhan yn yr argymhelliad.

Rydym yn parhau i adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau o raglenni ariannu'r UE, gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag ychwanegedd a gwerthuso effaith. Rydym yn cytuno ei bod yn hanfodol nodi a gweld canlyniadau mesuradwy, a sicrhau bod prosesau gwerthuso'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen, er mwyn manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiadau er budd ein heconomi a'n cymunedau.

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddweud sut y maent yn ymgysylltu ac yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r gwerth gorau o gyfran Cymru o wariant ymchwil ac arloesi y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr**.

**Ymateb:** Mae'r argymhelliad hwn wedi'i anelu at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ei rhan yn yr argymhelliad.

Ym mis Chwefror eleni, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth arloesi newydd, *Cymru'n Arloesli*, sy'n nodi'r cyfeiriad strategol o ran lle y dylai rhanddeiliaid Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ganolbwyntio eu hadnoddau a'u hymdrechion. Mae'n gwneud hyn drwy fabwysiadu dull trawslywodraethol, sy'n seiliedig ar genhadaeth ac yn canolbwyntio ar addysg, yr economi, iechyd a lles, a'r hinsawdd a natur.

Roedd hefyd yn cydnabod mai un rhan yn unig o'r dirwedd arloesi yng Nghymru y gall Llywodraeth Cymru fod. Mae llawer o'r ysgogiadau sy'n ategu gweithgarwch arloesi o fewn cyrff cyhoeddus eraill, ein system addysg drydyddol, a sefydliadau sydd â chylch gwaith sy'n cynnwys y DU gyfan.

Felly, un o'r camau cyntaf oedd i Lywodraeth Cymru geisio cysylltiadau agosach â rhanddeiliaid arloesi allweddol, ac yn enwedig gydag Innovate UK, gyda'i hymrwymiad i ddatblygu sy'n seiliedig ar le a'r agenda Ffyniant Bro (gyda'i genhadaeth ddatganedig, sef cynyddu gwariant Ymchwil a Datblygu y tu allan i Dde-ddwyrain Lloegr).

Llofnododd Llywodraeth Cymru ac Innovate UK femorandwm cyd-ddealltwriaeth ym mis Ebrill. Roedd hyn yn arwydd o ymdrech gydfuddiannol i hyrwyddo a datblygu cynigion arloesi o ansawdd uchel ar draws amrediad o randdeiliaid, sectorau a rhanbarthau, gyda'r nod cyffredinol o gynyddu cyfran Cymru o gyllid y DU a ddyfernir ar sail gystadleuol.

O ganlyniad, cyhoeddwyd Cynllun Arloesi Cydweithredol ar y cyd rhwng Innovate UK a Llywodraeth Cymru ym mis Hydref – y cyntaf o'i fath â llywodraeth ddatganoledig – wedi'i gynllunio i gyflawni'r nod cyffredinol hwn. Yn ogystal, cyhoeddwyd Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ym mis Hydref, sy'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu *Cymru'n Arloesi*, ac yn mesur y cynnydd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio staff presennol.

**Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymrwymo i'r cyfarfod 6 ffordd gyda'r Prifysgolion, eu cyrff llywodraethu, UCU Cymru a CCAUC, i drafod cyllid pontio ar gyfer y gwyddonwyr a'r staff cysylltiedig a fydd yn colli eu swyddi eleni o ganlyniad i dynnu cronfeydd strwythurol yn ôl, fel y cynigiodd TUC Cymru ac UCU Cymru.**

**Ymateb:** Mae'r argymhelliad hwn wedi'i anelu at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ei rhan yn yr argymhelliad.

Rydym yn deall bod yr amharu, yr anhyblygrwydd a'r ffaith nad oes cyllid llawn yn lle cyllid yr UE oherwydd dull Llywodraeth y DU o weithredu yn creu sefyllfa heriol iawn ar gyfer llawer o sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys prifysgolion, sydd wedi elwa ar gronfeydd yr UE o'r blaen. Mae llawer o sectorau yn economi Cymru bellach yn dweud bod staff yn cael eu diswyddo a bod rhaglenni hanfodol yn cau mewn meysydd fel ymchwil ac arloesi.

Ni all Llywodraeth Cymru lenwi bylchau ariannol sy'n deillio o golli mwy nag £1.1 biliwn o gyllid i ddisodli cronfeydd strwythurol yr UE a chyllid gwledig. Gan ei bod wedi cael ei hatal rhag cael mynediad at y Gronfa hon, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn defnyddio arian o Gyllideb ddiwethaf Cymru i gefnogi cynlluniau i Gymru gyfan megis Prentisiaethau a Busnes Cymru sy'n hollbwysig ar gyfer cynhyrchiant a thwf.

Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried cynigion ar gyfer cyllid pontio fesul achos, yn enwedig pan fydd ei chyllid yn gallu gweithredu fel lluosydd, gan ysgogi buddsoddiadau ychwanegol gan y sector cyhoeddus neu'r sector preifat.

**Goblygiadau Ariannol:** Bydd angen ystyried unrhyw gynigion am gyllid pontio yn ofalus yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol heriol bresennol ac yn unol â phrosesau polisi a chyllidebol. Byddai angen defnyddio cyllidebau presennol i dalu costau, a gall hyn arwain at golli cyfleoedd.

**Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth y DU weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun tymor hwy i ddiogelu ymchwil ac arloesi yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru.**

**Ymateb:** Er bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Mae diogelu ymchwil ac arloesi yn sector Addysg Uwch Cymru yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a byddem yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu cynllun tymor hwy i ddiwallu anghenion y sector. Rydym yn parhau i gefnogi'r sector i gael mynediad at gyfleoedd ariannu cystadleuol drwy ffynonellau yn y DU, ac Ewrop fel Horizon Europe.

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth y DU ystyried pryderon awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch rhai o'r gofynion ar gyfer cyllid Lluosi, a chymryd unrhyw gamau a fyddai'n sicrhau'r gwerth gorau am arian yr ymrwymwyd iddo gyda'r prosiect hwn. Gallai hyn gynnwys caniatáu amser ychwanegol i awdurdodau lleol wario eu dyraniad.**

**Ymateb:** Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhellion 17 ac 18:**

- **O ystyried bod y rhaglen Lluosi yn gweithredu mewn gofod datganoledig, dylai Llywodraeth y DU gynnwys Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu unrhyw raglen olynol; ac**
- **O ystyried y pryderon a godwyd gan awdurdodau lleol, dylai Llywodraeth y DU ystyried a ddylai unrhyw gronfa olynol i Lluosi hefyd ganolbwyntio ar lythrennedd a sgiliau digidol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl i'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf o'r cynllun. Dylid ymgynghori â Llywodraeth Cymru fel rhan o'r ystyriaethau hyn.**

**Ymateb:** Er bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Mae sgiliau a rhifedd oedolion yn faes datganoledig ac nid yw'r bobl yng Nghymru wedi rhoi mandad i bolisïau Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater hwn.

Er gwaethaf hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael chwarae unrhyw ran yn Lluosi. Mae Lluosi yn gweithredu mewn cystadleuaeth uniongyrchol â darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, sydd eisoes ar gael yng Nghymru. Mae hefyd yn peri risg o ddyblygu gwaith ein rhaglen Sgiliau Hanfodol Cymru sydd wedi hen ennill ei phlwyf.

Mae hyn yn golygu bod dysgwyr yng Nghymru yn wynebu amrediad dryslyd a chymhleth o opsiynau, gydag awdurdodau lleol yn nodi anawsterau wrth wario eu dyraniadau oherwydd materion dylunio a chyflawni, gan gynnwys diffyg hyblygrwydd Lluosi i ddarparu sgiliau llythrennedd a digidol.

Dylid dychwelyd penderfyniadau ar faterion datganoledig, gan gynnwys rhifedd oedolion, i Lywodraeth Cymru i helpu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisïau datganoledig a helpu i leihau gwastraff, gwerth gwael am arian a chanlyniadau gwael i unigolion.

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a cholegau i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddyblygu o ganlyniad i'r rhaglen Lluosi.**

**Ymateb:** Er bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru wedi codi pryderon ynghylch dylunio a darparu Lluosi ar ei ffurf bresennol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn ysgogi buddsoddi mewn sgiliau drwy ddatblygu ymatebion sy'n seiliedig ar anghenion lleol a rhanbarthol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol asesu'r trefniadau gweithredu ar gyfer y rhaglen Lluosi ym mhob un o'u hardaloedd rhanbarthol er mwyn helpu i osgoi dyblygu cynlluniau presennol.

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 20. Os bydd y Gronfa Ffyniant Bro yn parhau ar ôl 2025, ni ddylai gael ei darparu drwy geisiadau cystadleuol, a dylid dyrannu cyllid i’r ardaloedd hynny sydd â’r angen mwyaf.**

**Ymateb:** Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 21. Os bydd y Gronfa Ffyniant Bro yn parhau ar ôl mis Mawrth 2025, neu’n cael ei symleiddio’n gronfa ehangach, dylai fod gan Lywodraeth Cymru fwy o rôl yn ei datblygiad ac yn y broses o gytuno ar sut y caiff ei gweinyddu.**

**Ymateb:** Er bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Mae’r Gronfa Ffyniant Bro yn faes arall lle mae Llywodraeth y DU yn defnyddio pwerau Deddf Marchnad Fewnol y DU i benderfynu ar wariant yn uniongyrchol mewn meysydd datganoledig, gan osgoi Llywodraeth Cymru a’r Senedd.

Mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn disodli Cronfa Trefi Lloegr, y derbyniodd Llywodraeth Cymru swm canlyniadol ohoni drwy Barnett.

O dan y trefniadau presennol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Bro, mae pob penderfyniad ynghylch cyllid ar gyfer prosiectau lleol yng Nghymru wedi cael ei wneud yn Whitehall.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau'n gryf y dylai cyllid i lefelu rhanbarthau ar draws y DU fod yn seiliedig ar angen, ac nid drwy broses gystadleuol.

Ar ben hynny, o dan ein setliad datganoli, dylid rhoi unrhyw Gronfa Ffyniant Bro ar ôl 2025 i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt ei dyrannu yn unol â'i blaenoriaethau, ei chyfeiriad strategol a'i phrosesau cyllidebol, a dylai fod yn destun craffu gan y Senedd.

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth y DU egluro pryd y bydd Cylch 3 o'r Gronfa Ffyniant Bro yn agor cyn gynted â phosibl.**

**Ymateb:** Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth y DU barhau i weithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin ar wahân, ond wedi'i diwygio, ar ôl i'r gronfa bresennol ddod i ben ym mis Mawrth 2025.**

**Ymateb:** Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

**Goblygiadau ariannol:** Amh

**Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth y DU egluro beth yw ei bwriad o ran y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar ôl 2025 cyn gynted â phosib.**

**Ymateb:** Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

**Goblygiadau ariannol:** Amh